# LLOYD, WILLIAM (1786 - 1852), cerddor

**Enw:** William Lloyd
**Dyddiad geni:** 1786
**Dyddiad marw:** 1852
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cerddor
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Rhos-goch, Llaniestyn, Ll  n, yn 1786; dywed traddodiad iddo fod yn borthmon. Yr oedd y teulu'n gerddorol, ac âi Lloyd ei hun o amgylch Ll  n gan gynnal dosbarthiadau cerdd ac arwain cymanfaoedd; hefyd rhoddai hyfforddiant i bobl a ymwelai ag ef yn ei gartref. Cyfansoddodd lawer o emyndonau, ond y dôn y cysylltir ef â hi amlaf yw'r dôn urddasol honno a adwaenir heddiw fel ' Meirionydd '. Ymddengys hon nid yn unig ym mhob llyfr emynau Cymraeg, ond hefyd mewn casgliadau fel *Songs of Praise*. Mewn llawysgrif a berthynai i Lloyd ei hun gelwir hi yn ' Berth ', ac o dan yr enw hwn yr ymddangosodd gyntaf mewn print, yn *Caniadaeth Seion* (1840) a gyhoeddwyd gan Richard Mills. Yn ôl ei garreg fedd ym mynwent eglwys Llaniestyn bu farw 7 Mehefin 1852, yn 66 oed.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


J. Jones ('Myrddin Fardd'), *Enwogion Sir Gaernarfon* (1922), 253

P. Dearmer ac A. Jacob, *Songs of Praise Discussed a handbook to the best-known hymns and to others recently introduced* (Llundain 1933)

Ifor L. Evans (gol.), *Mawl yr Oesoedd. Casgliad o donau ac emynau* (Caerdydd 1951)


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: William Lloyd (cerddor)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821242


**Dyddiad cyhoeddi:** 1970



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu